

Sgiliau Bwyd Cymru

Amodau a Thelerau'r Rhaglen ar gyfer Busnesau Bwyd a Diod

1. Cymhwysedd Busnesau

- Rhaid i'r safle gweithgynhyrchu neu brosesu bwyd a diod fod yng Nghymru er mwyn i fusnes fod yn gymwys i dderbyn arian. Gall hyn gynnwys hefyd safleoedd cynhyrchu a gweithgynhyrchu pan mae'r pencadlys wedi'i gofrestru y tu allan i Gymru
- Rhaid i'r safle busnes fod yn uned a ddefnyddir yn benodol ar gyfer prosesu a gweithgynhyrchu; nid yw manwerthu yn cael ei gefnogi trwy'r rhaglen
- Gall y rhaglen ond gefnogi unigolion cyflogedig, ond gall hyn gynnwys gweithwyr rhan amser
- Rhaid i weithwyr fod dros 16 oed i dderbyn arian
- Mae gweithwyr sy'n byw tu allan i Gymru yn gymwys ar yr amod fod eu man gwaith yng Nghymru
- Rhaid i fusnesau ddangos eu bod yn hyfyw, eu bod yn awyddus i ymgysylltu â'r rhaglen, cael eu cynnwys wrth fesur llwyddiant a darparu gwybodaeth i Sgiliau Bwyd Cymru trwy gydol y rhaglen at ddibenion adrodd
- Mae'r rhaglen yn gobeithio cefnogi busnesau sy'n gallu creu effaith economaidd

2. De Minimis

- Ni ddylai unrhyw fusnes sydd eisiau derbyn yr arian fod wedi cael mwy na €200,000 o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru o fewn y 3 blynedd diwethaf
- Cyn y gellir cefnogi busnes, bydd angen iddynt lofnodi datganiad De Minimis yn datgan nad ydynt wedi mynd heibio lefel cefnogaeth De Minimis
- Ar ôl derbyn cymorth trwy Sgiliau Bwyd Cymru bydd y busnes yn derbyn llythyr yn cadarnhau lefel y gefnogaeth, a rhaid i hwnnw gael ei gadw gan y busnes yn dystiolaeth ar gyfer ceisiadau eraill am arian trwy raglenni sy'n cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol De Minimis
- Er mwyn cael mwy o wybodaeth am reolau De Minimis dilynwch y ddolen <https://gov.wales/funding/state-aid/de-minimis-aid/?lang=en>

3. Lefel y Cymorth Sydd ar Gael

Mae faint o arian sydd ar gael ar gyfer pob busnes yn dibynnu ar nifer y gweithwyr

- | | |
|--|-------------------|
| • Micro Fusnesau (1 – 10 o weithwyr) | hyd at 80% |
| • Cyflogwyr bach a chanolig (11- 249 o weithwyr) | hyd at 70% |
| • Sefydliadau mawr (> 250 o weithwyr) | hyd at 50% |

4. Diagnostig Twf Arloesi Busnes Bwyd a Diod – Adran Sgiliau

- Mae adran Diagnostig Sgiliau y Diagnostig Twf Arloesi Busnes Bwyd a Diod yn orfodol a rhaid ei lenwi cyn y gellir derbyn yr arian
- Bydd yr adran Diagnostig Sgiliau yn cael ei chwblhau gydag aelod o dîm Sgiliau Bwyd Cymru wyneb i wyneb neu dros y ffôn

Confidential	Version 4	Date: 12/02/2021	Page 1 of 3	Author: S. Lewis
L:\DPT - Departments\WAL - Wales\Food Skills Cymru - Project Delivery Folder\Terms and Conditions\Business - Terms and Conditions Version 4 Cymraeg				



- Unwaith y caiff yr adran Diagnostig Sgiliau ei cwblhau bydd y busnes yn cael cynllun hyfforddiant unigryw a chopi o'r ffurflen gais am yr arian
- Nid yw cwblhau'r adran Diagnostig Sgiliau yn gwarantu y caiff cais am arian ei gefnogi gan y rhaglen
- Rhaid i'r busnes gwblhau Diagnostig Twf Arloesi Busnes Bwyd a Diod yn ei gyfanrwydd yn ddiweddarach, ac os na chaiff y Diagnostig ei gwblhau gallai hynny olygu y bydd Llywodraeth Cymru yn hawlio'n ôl yr arian a dderbyniwyd trwy'r rhaglen

5. Proses Gwneud Cais am Arian

- Caiff yr holl geisiadau am arian eu sgorio'n fewnol, a dim ond ceisiadau all ddangos ad-daliad ar fuddsoddiad fydd yn cael eu cefnogi
- Gellir cyflwyno mwy nac un cais am arian o fewn cyfnod o 12 mis, yn amodol ar uchafswm ariannu o €200,000
- Rhaid i gyfanswm cost cyrsiau fod dros £200 er mwyn i Lantra brosesu cais
- Rhaid i bopeth a ddywedir ar y ffurflenni cais fod yn gywir a gwir. Dylid rhoi gwybod i Lantra os oes unrhyw newid i'r manylion a ddarparwyd
- Os yn briodol, bydd Sgiliau Bwyd Cymru yn cyfeirio busnes at Brosiect Helix, Cywain a phrosiectau perthnasol eraill i gael cefnogaeth
- Bydd Lantra yn dewis y darparwydd hyfforddiant mwyaf addas i ddarparu'r hyfforddiant ar gyfer busnes. Ni all busnesau ddewis pa ddarparwydd hyfforddiant fydd yn darparu'r hyfforddiant
- Mae lefel y cyllid a roddir yn seiliedig ar werth yr ewro a gyfrifir ar ddechrau pob mis
- Danfonir hysbysiadau canlyniadau cyllido at fusnesau trwy e-bost trwy ddolen One Drive
- Bydd darparwyr hyfforddiant a busnesau yn derbyn manylion cyswllt ei gilydd ar yr un pryd
- Rhaid i fusnesau dderbyn cadarnhad cyllido yn ysgrifenedig cyn cychwyn y cwrs hyfforddiant
- Bydd angen i'r darparwydd hyfforddiant gysylltu â'r busnes o fewn 10 diwrnod gwaith wedi derbyn llythyr cadarnhau cyllid
- Mater i'r darparwydd hyfforddiant a'r busnes yw cytuno dyddiad hyfforddiant a chadarnhau unrhyw ofynion arbennig
- Ni ddylai'r busnes fod wedi derbyn, ac ni ddylai fod yn bwriadu gwneud cais am gymorth oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall a ddarperir gan y Cymunedau Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru na chyrrff yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn y DG o ran gwaith a restrir ar eu ffurflen gais
- Os nad yw busnes yn cwblhau'r hyfforddiant cyn diwedd cyfnod y prosiect ni allant wneud cais am arian ar gyfer yr un cwrs eto
- Mae'n bosibl canslo cais am arian os all y busnes ddangos amgylchiadau esgusodol sy'n esbonio pan na fyddant yn cwblhau'r cwrs cyn diwedd cyfnod y prosiect. Rhaid i Lantra dderbyn ceisiadau i ganslo yn ysgrifenedig
- Bydd gan fusnesau hawl i wrthod gwasanaethau Darparwr Hyfforddiant cyn i'r cwrs gychwyn heb fod yn atebol am unrhyw gostau neu gyfrifoldebau.

Confidential	Version 4	Date: 12/02/2021	Page 2 of 3	Author: S. Lewis
L:\DPT - Departments\WAL - Wales\Food Skills Cymru - Project Delivery Folder\Terms and Conditions\Business - Terms and Conditions Version 4 Cymraeg				



6. Ymwrwymiaidau Busnesau Bwyd a Diod

- Rhaid i'r busnes dalu'r cyfraniad ariannol a gytunwyd ag a nodir yn y llythyr cadarnhau cyllid at y darparwydd hyfforddiant cyn i'r cwrs gychwyn
- Os nad yw buddiolwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant neu os yw busnes yn canslo o fewn cyfnod afresymol o amser cyfrifoldeb y busnes yw trafod a chytuno unrhyw gostau sydd heb eu talu gyda'r darparwydd hyfforddiant
- Pan mai dyma'r achos, bydd Sgiliau Bwyd Cymru yn pennu'r canlyniad fesul achos
- Rhaid i holl ffurflenni buddiolwyr Sgiliau Bwyd Cymru a ddarperir gan y darparwydd hyfforddiant ar ddiwrnod yr hyfforddiant gael eu llenwi gan bob unigolyn sy'n mynychu cwrs

7. Deddf Diogelu Data (2018) a GDPR y DU

- Mae gan Lantra hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer y rhaglen ar yr holl ddogfennaeth berthnasol
- Mae hysbysiad preifatrwydd llawn ar gael ar y wefan
- Ni fydd Lantra ond yn danfon manylion busnesau at ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi ennill ymarferiad tendro
- Bydd Lantra yn rhannu dadansoddiad ystadegol gyda Llywodraeth Cymru, ein contractwyr, sy'n un o ofynion ymwrwymiaidau adrodd y rhaglen
- Bydd Lantra yn gofyn am ganiatâd busnesau cyn defnyddio unrhyw fanylion mewn gweithgareddau Cyfathrebu a Marchnata

8. Gwerthusiad

- Bydd Lantra yn caffael contract ar wahân i benodi mudiad allanol i werthuso rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru
- Bydd rhaid i fusnesau gydsynio i gymryd rhan yn y broses werthuso

Cofnodir pob fersiwn o'r ddogfen hon ac mae Lantra'n cadw'r hawl i ddiweddarau a diwygio'r ddogfen os a phan fydd angen.

Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ar Ddydd Gwener 12fed o Chwefror 2021

Confidential	Version 4	Date: 12/02/2021	Page 3 of 3	Author: S. Lewis
L:\DPT - Departments\WAL - Wales\Food Skills Cymru - Project Delivery Folder\Terms and Conditions\Business - Terms and Conditions Version 4 Cymraeg				